Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Cabinet: 7 Tachwedd 2022

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 7 Tachwedd 2022.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Rhagfyr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 21 Rhagfyr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Cyfarfod blaenorol

Eitemau’r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

Gwarant i Bobl Ifanc

Unrhyw fater arall



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS
- Rebecca Evans AS
- Vaughan Gething AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS
- Mick Antoniw AS

- Hannah Blythyn AS
- Dawn Bowden AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

## Swyddogion

- Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog
- Will Whiteley, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig
- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Sam Hadley, Cynghorydd Arbennig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Mitch Theaker, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa'r Cabinet
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adfer wedi COVID-19 a Llywodraeth Leol
- Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid (eitem 2)
- Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol (eitem 2)
- Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllideb a Busnes y Llywodraeth (eitem 2)
- Jo Salway, Cyfarwyddwr Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg (eitem 4)
- Sam Huckle, Pennaeth Cyflenwi a Gweithrediadau Cyflogadwyedd (eitem 4)
- Gareth Woodhead, Pennaeth Gwarant i Bobl Ifanc (eitem 4)
- Rachel Garside-Jones, Pennaeth Uned y Cytundeb Cydweithio (eitem 5)

# Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 20 a 24 Hydref.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Eitem 2: Eitemau’r Prif Weinidog

2.1 Rhoddodd y Prif Weinidog wybod i'r Cabinet ei fod wedi dal COVID-19 dros y penwythnos ac y byddai'n gweithio’n rhithwir yr wythnos honno. Gallai fod rai digwyddiadau ble byddai angen iddo ofyn i Weinidogion weithredu ar ei ran. Yn ogystal, roedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei gynnal yn Blackpool yn ddiweddarach yr wythnos honno. Roedd yn gobeithio ymuno â'r cyfarfodydd yn rhithwir, ond os na fyddai hynny'n bosibl, efallai y byddai’n gofyn i Weinidog arall gynrychioli'r Llywodraeth.

## Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Ystyriodd y Cabinet Grid y Cyfarfodydd Llawn a nodwyd bod yr amser pleidleisio wedi'i drefnu ar gyfer 5:45pm ddydd Mawrth a thua 6:55pm ddydd Mercher. Hyd yma, roedd un Cwestiwn Amserol wedi'i gyflwyno yn gofyn a fyddai'r Llywodraeth yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i ddelio â'r llifogydd diweddar yn ardal Melyn.

## Eitem 4: Gwarant i Bobl Ifanc – Adolygiad blwyddyn yn ddiweddarach

4.1 Cyflwynodd Gweinidog yr Economi'r papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gadarnhau a ddylai cwmpas y Warant i Bobl Ifanc barhau ar gyfer pob rhaglen addysg, hyfforddiant, cyflogadwyedd a hunangyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed. Gofynnwyd i Weinidogion gytuno i ganolbwyntio ar roi adnoddau ychwanegol Gwarant i Bobl Ifanc i'r rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

4.2 Roedd nifer o fesurau wedi'u datblygu i reoli effaith bosib COVID-19 ar bobl ifanc, fodd bynnag, yn dilyn y pandemig, ni chafwyd y lefel ddisgwyliedig o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Serch hynny, bu cynnydd yn nifer y rhai nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ynghyd ag achosion o greithio difrifol, lle'r oedd un o bob tri pherson ifanc yn credu na fyddai eu rhagolygon gwaith byth yn dod dros effaith y pandemig.

4.3 Bu Sgwrs Genedlaethol â phobl ifanc dros y misoedd diwethaf, a phrif thema'r trafodaethau oedd adroddiadau am faterion difrifol o ran iechyd meddwl a hyder, ochr yn ochr â materion mwy traddodiadol, megis cael mynediad at drafnidiaeth a darpariaeth gofal. Cafwyd adborth tebyg gan Gyrfa Cymru, gweithwyr arweiniol Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaethau eraill.

4.4 Gwnaed gwelliannau er mwyn helpu i nodi'r bobl ifanc hynny a allai fod angen cymorth ychwanegol. Byddai'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid adnewyddedig yn chwarae rhan allweddol yn y broses o nodi unigolion posibl mewn ysgolion ac unigolion hyd at 18 oed yn gynnar.

4.5 Byddai'r Warant yn fwy gweladwy drwy ddefnyddio'r brand ynghyd â chyllid presennol a pharamedrau cytundebol, gan ddechrau gyda'r Rhaglenni Cyflogadwyedd. Drwy'r ymgyrchoedd hyn, byddai digwyddiadau sgiliau a gyrfaoedd yn cael eu hyrwyddo, ynghyd â chyfleoedd ail gyfle mewn addysg bellach ac addysg uwch a phrentisiaethau.

4.6 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 5: Unrhyw fater arall

## Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Cydweithio 2021-22 CAB(22-23)18

5.1 Nododd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Cydweithio ar gyfer 2021-22, a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, tua blwyddyn ers arwyddo'r cytundeb gwreiddiol.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Tachwedd 2022

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-7-tachwedd-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.